**Eitem ar yr agenda: 11**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**27 MAWRTH 2006**

**Y DIWEDDARAF AR BENSIYNAU**

Adroddiad gan y Clerc

**Diben yr Adroddiad**

1 Rhoi'r diweddaraf i'r Awdurdod Tân ac Achub am hynt Llywodraeth y Cynulliad o ran y ddeddfwriaeth ar bensiynau ayyb.

**Cefndir**

2 Trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am bensiynau'r diffoddwyr tân i'r Cynulliad Cenedlaethol yn Nhachwedd 2004, pan ddaeth Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 i rym. Yn ei gyfarfod ar 19 Medi 2005, penderfynodd yr Awdurdod anfon llythyr at y Gweinidog i fynegi pryder am yr oedi yn y cynigion am gynllun newydd, a'r effaith andwyol posib ar ddiffoddwyr tân yng Nghymru. Cadarnhaodd y Gweinidog mewn llythyr dyddiedig 3 Hydref y dylai'r trefniadau newydd ar gyfer pensiynau, yn cynnwys cyllid, gael eu gweithredu o 1 Ebrill, 2007 ymlaen, ac roedd yn cydnabod bod angen adlewyrchu goblygiadau'r Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004, a ddaeth i rym ar 5 Rhagfyr, yng Nghymru. Roedd gohebiaeth bellach gydag Aelodau o'r Cynulliad oedd yn mynd ar ôl y mater hwn wedi dangos mai'r bwriad oedd ôl-ddyddio darpariaethau'r cynllun pensiwn newydd i 1 Ebrill 2006 (mae pwerau'r Cynulliad yn caniatáu ôl-ddarpariaeth o ran pensiynau ayyb.)

3 Mae'r sefyllfa ddiweddaraf fel a ganlyn:

3.1 hyd yn hyn, **nid yw Llywodraeth y Cynulliad wedi dod ag unrhyw gylchlythyr allan i'r Awdurdodau Tân ac Achub na'r staff ynglŷn â'i gynlluniau am ddeddfwriaeth ar gynllun newydd, y cynnwys na'r amserlen.** Mae hyn yn wahanol i'r pentwr o ddogfennau o'r fath sydd wedi dod gan Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog ar gyfer Lloegr;

3.2 daeth llythyr ymgynghorol heb ddyddiad i law ar 10 Mawrth sy'n ceisio sylwadau erbyn 1 Ebrill ar **orchymyn diwygio ar gyfer y cynllun pensiwn presennol.** Mae hyn yn ymdrin â'r newidiadau wedi hynny sydd eu hangen gan Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (megis newid "awdurdod tân" i "awdurdod tân ac achub")

a'r Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004, yn ogystal â mân-newidiadau i dwtio. Nid yw'r gorchymyn yn rhoi cynllun pensiwn newydd, a fyddai ar gael i ddiffoddwyr tân rhan amser a llawn amser, ar waith. Ar y cyd â'r Prif Swyddog Cynorthwyol (Gwasanaethau Corfforaethol), rwyf wedi nodi nifer o fân-sylwadau ar y gorchymyn drafft a fydd yn cael ei anfon at swyddogion Llywodraeth y Cynulliad erbyn y dyddiad cau;

3.3 ar 2 Chwefror, cyhoeddodd Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog gylchlythyr yn esbonio bod y **trefniadau presennol ar gyfer talu iawndal** mewn achos o farwolaeth neu anaf yn eu hanfod yn anghyfreithlon, ac y byddai cynllun statudol newydd yn cael ei gyflwyno yn Lloegr i ddod i rym o'r 1 Ebrill. Ymhlith pethau eraill, byddai hyn yn sicrhau nad yw dyfarniadau iawndal anghyfrannol yn agored i gael eu trethu dan y rheolau treth ar gyfer pensiynau sy'n dod i rym ym mis Ebrill. Cysylltais ag un o swyddogion uchaf Llywodraeth y Cynulliad ar 5 Chwefror i ofyn am gadarnhad fod Llywodraeth y Cynulliad wedi deall yr angen i weithredu'r newid yng Nghymru, a phryd roedd yn bwriadu ymgynghori ynghylch y ddeddfwriaeth ddrafft. Ar 19 Chwefror, daeth ateb i law, sef "We are aware of the need to make changes to the pension scheme and we are trying to keep as close as possible to the ODPM timetable. We will consult as soon as we have clarity on the issue." Ar 15 Mawrth, cyhoeddodd Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog ddeddfwriaeth ddrafft ymgynghorol fer iawn i roi'r cynllun iawndal ar sail statudol yn Lloegr, ac i wneud rhai newidiadau eraill i'r cynllun pensiwn, yn cynnwys rhai sy'n angenrheidiol oherwydd y trefniadau newydd ar gyfer trethu ym mis Ebrill. Er nad ydym wedi cael unrhyw ymgynghoriad ffurfiol ar y ddeddfwriaeth ddrafft ar gyfer Cymru, derbyniodd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Gwasanaethau Corfforaethol) gais anffurfiol am sylwadau ar rai materion trwy e-bost ar 14 Mawrth;

3.4 roedd cylchlythyr gan Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog yn ystod yr wythnos 20 Chwefror yn dweud wrth awdurdodau yn Lloegr i **roi staff newydd o 6 Ebrill ymlaen yn y cynllun presennol dros dro** cyn eu trosglwyddo wedyn i'r cynllun pensiwn newydd (yn Lloegr, ni ddisgwylir i'r ddeddfwriaeth ar gyfer y cynllun newydd gael ei wneud tan fis Mehefin). Mae yna faterion pwysig hefyd i bobl sydd ar seibiant gyrfa a'r rhai sydd wedi dewis eithrio o'r cynllun pensiwn presennol. Codwyd y mater hwn gydag un o brif swyddogion Llywodraeth y Cynulliad, a dywedwyd wrthyf y gallem ddisgwyl i rywbeth gael ei gyhoeddi. Rydym yn dal heb dderbyn unrhyw ohebiaeth ynghylch hyn gan Lywodraeth y Cynulliad;

3.5 ar 7 Fawrth, dosbarthwyd nodyn gan Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog at bob diffoddwr tân ym Mhrydain ynghylch y cynllun

pensiwn newydd.  Mae'r nodyn yn rhoi gwybodaeth fanwl am ystod o faterion ond nid yw'n datgan yn eglur ei fod yn cyfleu bwriadau Llywodraeth y Cynulliad, er ein bod yn deall ei fod yn eu cyfleu'n gywir.

4 Yn gryno felly, rydym yn dal heb ddogfennaeth ffurfiol gan Lywodraeth y Cynulliad yn datgan yn bendant:

(1) ffurf y cynllun pensiwn newydd y maent yn bwriadu ei weithredu i ddod i rym o Ebrill 2006, er y bydd cael ei ôl-ddeddfu;
(2) bod yr awdurdod tân ac achub i roi recriwtiaid newydd o Ebrill 2006 ymlaen yn y cynllun presennol dros dro a'u symud wedyn i'r cynllun newydd;
(3) eu bod yn mynd i roi'r cynllun iawndal ar sail statudol cywir i ddod i rym ar 1 Ebrill 2006 fel nad yw'r diffoddwyr tân o dan anfantais pan fydd y rheolau treth newydd yn dod i rym ar 6 Ebrill.

**Argymhelliad**

5 Bod yr Awdurdod yn ystyried yr wybodaeth sydd yn yr adroddiad hwn, a pha gamau (os o gwbl) y mae'n dymuno eu cymryd.